Ar nos Wener, 9 Mehefin cynhaliwyd ein Ffair Haf flynyddol. Agorwyd y ffair gan y cyn-brifathro Mr R J Evans, Aberystwyth a braf oedd cael ei groesawu'n ôl i'n plityh. Cafwyd ganddo araith gryno a phwrpasol yn ein hannog i barchu a chadw'r trysor mwyaf a feddwn fel cenedl - sef ein hiaith. Nid anghofiodd chwaith, am brif bwrpas y noson - codi arian i gronfa'r ysgol - ac aeth yn ddwfn i'w boced unwaith eto. Ein diolch diffuant iddo ac i bawb a'n cefnogodd i sicrhau llwyddiant y noson.

Yn ystod mis Mai bu'n rhaid ffarwelio â Mrs Prysorwen Davies, cynorthwywraig y gegin, gan iddi gael ei phenodi'n gogyddes yn ysgol Trefeurig. Daeth Mrs Davies yn ôl atom un prynhawn a chyflwynodd y prifathro rodd iddi ar ran y disgyblion a'r staff fel arwydd o'n gwerthfawrogiad o'i gwasanaeth yn ystod y cyfnod y bu yn ein plith. Ein dymuniadau gorau iddi yn ei swydd newydd.

Oherwydd tywydd anffafriol bu'n rhaid gohirio Chwaraeon Potes yr Urdd, Cylch Aberystwyth a oedd i'w cynnal ym Mhenrhyn-coch ar 8 Mehefin. Bwriedir rhoi ail gynnig arni ar 21 Mehefin am 4.15 o'r gloch.

Gyda diwedd blwyddyn ysgol arall yn nesau, dymunwn rhwydd hynt a phob llwyddiant i'r disgyblion fydd yn cychwyn ar bennod newydd yn eu hanes yn ysgolion Penweddig a Phenglais ym mis Medi.